# Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011

**2011 mccc 6**

**4 Asesiad risg diogelwch o gludiant i ddysgwyr**

Ar ôl adran 14C o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 rhodder—

"**14D Asesiad risg diogelwch o gludiant i ddysgwyr**

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol gynnal asesiadau risg diogelwch o'r cludiant i ddysgwyr y mae yn ei ddarparu neu yn ei sicrhau fel arall.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—

(a) gosod gofynion ynghylch natur yr asesiad i'w gynnal;

(b) ei gwneud yn ofynnol i lunio a chyhoeddi adroddiadau;

(c) rhagnodi ffurf a dull y cyhoeddi;

(d) rhagnodi pa mor aml y mae'n rhaid cynnal yr asesiadau.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 16(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011, Adran 4.